

CANLLAWIAU: CRONFA ADFER CANOL TREFI COVID-19

I ofyn am Ffurflen Gais
anfonwch e-bost gan nodi enw'ch busnes a'ch **cyfeiriad masnachu llawn** i;

✉ **GrantiauBusnes@rctcbc.gov.uk**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



CANLLAWIAU: CRONFA ADFER CANOL TREFI COVID-19

Pwrpas y Gronfa

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo ail-bwrpasu elfennau o gyllideb Trawsnewid Trefi 2020/21 i ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd wrth addasu'r mesurau cadw pellter cymdeithasol cynhwysfawr sy'n ofynnol yng nghanol trefi o ganlyniad i bandemig COVID-19. Bydd hyn yn cynorthwyo busnesau ac yn cyfrannu at greu amgylchedd diogel er mwyn annog pobl i ddychwelyd i'r stryd fawr.

Mae'r cyllid i'w ddefnyddio ar gyfer **ymyriadau allanol a fydd yn hwyluso cadw pellter cymdeithasol** ac ar gyfer safleoedd â llai o bobl na'r arfer mewn mannau lle byddai cwsmeriaid ac aelodau'r cyhoedd yn cwrdd, yn cael bwyd neu ddiod neu'n gorffwys.

Bydd angen i unrhyw fesurau corfforol sy'n cael eu cefnogi drwy'r gronfa yma gymryd camau i ddiogelu rhag COVID a rhaid cymryd mesurau ymddygiad priodol fel arwyddion, arweiniad a hyfforddiant staff.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais?

Busnesau bach a chanolig eu maint wedi'u lleoli yn ardaloedd manwerthu'r trefi canlynol - Aberdâr; Glynrhedynog; Llantrisant; Aberpennar; Pontypridd; Porth; Tonypanyd a Threorci

Beth mae'r Rhaglen yn gallu'i ariannu?

Dyma enghreifftiau o'r math o'r ymyriadau allanol y gallai'r grant eu cefnogi;

- Gwelliannau awyr agored sy'n hwyluso gofod masnachu awyr agored h.y. adlenni awyr agored, canopiâu, gwresogi awyr agored;
- Byrddau, cadeiriau a darpariaeth seddi awyr agored;
- Sgrinio awyr agored, bolardiau a phlanwyr;
- Cyfleusterau gweini awyr agored;
- Cynlluniau Seilwaith Gwyrdd bach;
- Cyflenwad trydanol a goleuadau ar gyfer gofod masnachu awyr agored;
- Addasiadau blaen siopau / sefydlu a mabwysiadu a defnyddio lleoedd masnachu gwag dros dro i osgoi gorlenwi, defnyddiau yn y cyfamser, pop-ups ac ati.
- Gwelliannau i'r iard / gardd gefn;

Rhaid i'ch prosiect fod yn ddigon safonol i sicrhau ei fod yn cael effaith barhaus a pharhaol **ac** y bydd unrhyw waith yn cael ei gyflawni i safonau adeiladu a diogelwch priodol.

Celfi Caffi Stryd

Os ydych chi am osod dodrefn ar y briffordd gyhoeddus yng Nghanol Tref Aberdâr a Phontypridd, mae Cynllun Trwydded Celfi Caffi Stryd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi sicrhau trwydded. Rhaid i chi allu dangos bod y drwydded wedi'i sicrhau cyn i unrhyw grant gael ei dalu. Am ragor o wybodaeth ar sut i wneud cais, e-bostiwch CanolTrefi@rctcbc.gov.uk. Ym mhob tref arall, dim ond ar dir rydych chi'n ei brydlesu neu'n berchen arno y caniateir i chi osod celfi ar gyfer Caffi ar y Stryd.

Bydd angen i chi gael yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n ymdrin yn benodol â maes masnachu awyr agored, a chaniatâd ysgrifenedig gan y Landlord os yw'r ardal yn cael ei phrydlesu.

Am faint o arian mae modd i mi wneud cais?

Mae modd i'r Gronfa gyfrannu hyd at 80% o gostau prosiect cymwys, hyd at uchafswm y grant, sef £10,000. Os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, mae modd i chi wneud cais am gost TAW does dim modd ei hadennill yn unig.

Mae modd i'r Gronfa ystyried costau cymwys y gallech fod wedi'u hysgwyddo eisoes, ond rhaid bod y rhain ar ôl 26 Mehefin 2020.

Mae ceisiadau wedi'u cyfyngu i 1 fesul lleoliad busnes.

Sut ydw i'n cyflwyno Cais?

Bydd angen i chi gyflwyno ffurflen gais wedi'i chwblhau ac sy'n cynnwys yr **HOLL** wybodaeth ategol ofynnol wedi'i nodi ar y ffurflen.

Rhaid derbyn ceisiadau erbyn diwedd y dydd **DYDD GWENER, 5 MAWRTH 2021**. Fyddwn ni **DDIM** yn ystyried ceisiadau ar ôl y dyddiad yma.

Does dim sicrwydd y bydd pob cais yn llwyddiannus. Byddwn ni'n asesu ar sail y cyntaf i'r felin, yn ddibynnol ar bwy sy'n gymwys a'r cyllid sy'n weddill.

Cofiwch, o ystyried y sefyllfa bresennol, bydd angen cyflwyno'ch cais a'ch gwybodaeth ategol trwy e-bost gan na allwn dderbyn unrhyw gopïau papur.

Sut bydd fy nghais yn cael ei brosesu?

Bydd eich cais yn destun gwiriad dilysu cychwynnol i sicrhau eich bod chi wedi cyflwyno'r holl wybodaeth gywir

Os yw'ch cais yn cael ei ddilysu, yna bydd yn cael ei asesu. Os yw'ch cais yn llwyddiannus, byddwch chi'n derbyn llythyr o gynnig. Os ydych chi'n dymuno derbyn y grant bydd angen i chi lofnodi a dychwelyd y llythyr.

Os does dim modd dilysu'ch cais, bydd yn cael ei ddychwelyd atoch yn egluro pam does dim modd ei ddilysu ar hyn o bryd.

Sut bydd y grant yn cael ei dalu?

Fel rheol, bydd y taliad yn cael ei wneud wedi i chi gwblhau'r prosiect ac **ar ôl i chi gyflwyno' canlynol;**

- Anfonebau
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n ymdrin yn benodol â maes masnachu awyr agored
- Cadarnhad o Drwydded Celfi Stryd (os yw'n berthnasol)
- Tystiolaeth ffotograffig o'r offer a brynwyd / gwaith a wnaed.

Rhaid i chi ofyn am y taliad grant ar gyfer eich prosiect sydd wedi'i gwblhau erbyn 11 Mehefin 2021.

Os yw'ch cynnig yn gofyn am gydsyniad statudol ar ffurf caniatâd cynllunio a / neu reoliadau adeiladu, eich cyfrifoldeb chi fel ymgeisydd yw sicrhau bod unrhyw gydsyniad wedi'i sicrhau. Dydy sicrhau cynnig ar gyfer grant ddim yn gwarantu caniatâd statudol ac mae modd cymryd

camau gorfodi os nad ydych chi wedi sicrhau'r caniatâd perthnasol.